
Cyllid & Tollau EM

# Gwiriwch eich credydau treth nawr



Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth ar eich Adolygiad Blynyddol yn gywir er mwyn sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o gredydau treth ar gyfer y cyfnod dyfarnu cywir.

Dilynwch y 3 cham hawdd hyn.

## Cam A

Gwiriwch fod cyfnod eich dyfarniad a'r amgylchiadau personol y gwnaethom seilio'ch hawliad arnynt yn gywir.

## Cam B

Gwiriwch fod unrhyw newidiadau a wnaed i'ch hawliad yn ystod cyfnod eich dyfarniad yn gywir. Gallai'r rhain fod yn newidiadau rydych wedi rhoi gwybod i ni amdanynt, neu newidiadau yr ydym wedi'u gwneud. Os oes unrhyw newidiadau ar goll, neu os nad ydych wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, rhaid i chi roi gwybod i ni nawr.

## Cam C

Gwiriwch eich Adolygiad Blynyddol. Gellir hefyd dangos manylion incwm gan eich cyflogwyr a'ch darparwyr pensiwn, ar eich cyfer chi neu ar gyfer eich partner (os oes gennych un). Gwiriwch a yw'r ffigurau ar gyfer eich incwm yn gywir, ac a oes angen i chi wneud unrhyw addasiadau. Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i wneud hyn.

## A yw'r holl fanylion yn gywir?

Os yw'r holl fanylion yn gywir:
- does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth arall
- byddwn yn adnewyddu'ch credydau treth yn awtomatig
- bydd y llythyr Adolygiad Blynyddol TC603R a ddaeth gyda'r nodiadau hyn yn gweithredu fel eich hysbysiad o ddyfarniad

Ni fyddwn yn anfon hysbysiad o ddyfarniad arall atoch y flwyddyn hon, oni bai eich bod yn rhoi gwybod am newid, felly cadwch eich Adolygiad Blynyddol rhag ofn y bydd ei angen arnoch.

## Rhywbeth o'i le?

Os oes unrhyw fanylion yng Nghamau A, B neu C yn anghywir, mae angen i chi roi gwybod i ni.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud hyn nawr, er mwyn i ni allu sicrhau eich bod yn cael y swm cywir o arian.

Gallwch roi gwybod am unrhyw newidiadau gan ddefnyddio ein ap – chwiliwch am 'HMRC' yn eich siop apiau, neu ewch i www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth

**Gallech gael cosb o hyd at £300 os na fyddwch yn rhoi gwybod am unrhyw newid cyn pen 30 diwrnod, a chosb o hyd at £3,000 os rhowch wybodaeth anghywir.**

I gael rhestr lawn o'r newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

# Amdanoch chi

## Hawliadau sengl ac ar y cyd

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos a wnaethoch hawlio fel person sengl, neu ar y cyd fel cwpl ar ddechrau cyfnod eich dyfarniad. Os gwnaethoch hawlio fel cwpl byddwn yn dangos y ddau enw. Mae'r ddau ohonoch yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl fanylion yn yr adolygiad yn gywir.

Os nad ydych yn siŵr a fyddech yn cael eich ystyried yn rhan o gwpl, ewch i www.gov.uk/claim-tax-credits/joint-claims neu ffoniwch ein llinell gymorth

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os:**

- gwnaethoch ddechrau byw gyda'ch gilydd fel cwpl
- gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil
- gwnaethoch wahanu oddi wrth eich partner (yn barhaol)
- bu farw eich partner

## Ble rydych yn byw

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos y wlad y buoch yn byw ynddi'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod cyfnod y dyfarniad. Os oedd eich prif gartref yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw), rydym yn dangos eich bod yn byw yn y DU.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner:**

- wedi gadael y DU yn barhaol
- wedi mynd dramor am fwy nag 8 wythnos (neu fwy na 12 wythnos os aethoch dramor oherwydd eich bod yn sâl, neu oherwydd bod aelod o'ch teulu'n sâl neu wedi marw)
- wedi colli'ch hawl i breswylio yn y DU

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC/FS6.

## Anabledd – oedolion

Os oedd gennych anabledd, a chawsoch elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith, fe'i dangosir ar eich Adolygiad Blynyddol.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni:**

- os ydych wedi dechrau neu stopio cael yr elfen anabledd neu'r elfen anabledd difrifol
- cyn pen un mis ar ôl cael budd-dal anabledd yn dilyn adolygiad neu apêl – mae'n bosibl bod gennych hawl i'r elfen anabledd hyd yn oed os yw eich dyfarniad credydau treth wedi dod i ben

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am TC956.

## Eich gwaith, budd-daliadau a chyflogaeth

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos y wlad lle buoch yn gweithio y rhan fwyaf o'r amser, a chyfanswm yr oriau y gwnaethoch fel arfer eu gweithio bob wythnos am dâl. Bydd hefyd yn dangos a gawsoch Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner:**

- wedi cael Credyd Treth Gwaith a bod eich absenoldeb mamolaeth wedi para mwy na 39 wythnos
- wedi rhoi'r gorau i weithio, wedi colli'ch gwaith neu heb ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb
- wedi newid eich oriau gwaith arferol fel bod y naill neu'r llall ohonoch wedi gweithio llai na'r canlynol
  – 16 awr yr wythnos
  – 24 awr yr wythnos
  – 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, mae'n rhaid i un ohonoch weithio o leiaf 16 awr – mae angen i chi adio'ch oriau gwaith at ei gilydd er mwyn i chi allu penderfynu a ydych yn gweithio llai na 24 neu 30 awr)
- wedi cael elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith, ac wedi dechrau gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- wedi cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- wedi dechrau neu stopio cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn
- wedi bod yn hunangyflogedig neu wedi dechrau gweithio'n hunangyflogedig yn ddiweddar neu'n cael incwm o hunangyflogaeth
- wedi stopio bod yn analluog i weithio, yn glaf mewn ysbyty, yn y carchar neu yn y ddalfa'n aros achos llys neu ddedfryd
- â hawl i Lwfans Gofalwr neu'r Taliad Cymorth Goflawr

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

Erbyn hyn, ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant ar gyfer trydydd plentyn, nac unrhyw blant pellach, a aned ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau yn gymwys – i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy

Bydd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn cael eu talu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os na fyddwn yn talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Dylech roi gwybod am enedigaeth plentyn ac am unrhyw newidiadau'n ymwneud â'ch plant neu bobl ifanc bob tro, oherwydd ei bod yn bosibl y byddwch yn gallu cael mwy o arian.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os:**

- gwnaeth y nifer o blant neu bobl ifanc cymwys yr oeddech yn gyfrifol amdanynt newid – er enghraifft
  – ymunodd plentyn neu berson ifanc â'ch teulu neu cafodd ei osod gyda'ch teulu i gael ei fabwysiadu, neu oherwydd ganed baban
  – gadawodd plentyn neu berson ifanc eich teulu, er enghraifft, fe'i cymerwyd i ofal, cafodd ei faethu neu ei fabwysiadu gan deulu arall, neu cafodd ei gadw yn y ddalfa am fwy na 4 mis ar ôl ei gael yn euog gan lys a'i ddedfrydu i garchar, neu bu farw
- oedd newidiadau'n effeithio ar berson ifanc cymwys – er enghraifft
  – gadawodd addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy cyn iddo gyrraedd 20 oed, neu rhoddodd y gorau i fod yn gofrestredig â gwasanaeth gyrfaoedd, gwasanaeth Connexions, neu wasanaeth cyfatebol
  – roedd disgwyl iddo barhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ar ôl 31 Awst yn dilyn y dyddiad pan wnaeth droi'n 16 oed, ond ni wnaeth y person ifanc hynny yn y pen draw
  – aeth yn ôl i addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, a gwnaeth naill ai ddechrau, ymrestru ar gyfer, neu gael ei dderbyn ar y cwrs cyn iddo gyrraedd 19 oed
- gwnaeth person ifanc cymwys
  – dechrau mewn cyflogaeth â thâl, neu gael budd-daliadau ei hun, er enghraifft Credyd Cynhwysol
  – dechrau cael ei hyfforddiant o dan gytundeb cyflogaeth
  – cofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd cymwys ar ôl gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, ac roedd ganddo waith taledig am o leiaf 24 awr yr wythnos

Mae'r elfen plentyn ar gyfer person ifanc 16, 18 neu 19 oed yn dod i ben yn awtomatig bob blwyddyn, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy.

## Anabledd – plant a phobl ifanc

Mae'ch Adolygiad Blynyddol yn dangos a gawsoch Gredyd Treth Plant ychwanegol am fod gan eich plentyn anabledd.

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os gwnaethoch ddechrau neu stopio cael:**

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Taliad Anabledd Plant (CDP) yn yr Alban neu'r gyfradd uchaf o elfen gofal y DLA/CDP ar gyfer eich plentyn
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Taliad Anabledd i Oedolion (ADP) yn yr Alban neu elfen bywyd pob dydd ychwanegol y PIP/ADP ar gyfer eich plentyn
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog ar gyfer eich plentyn

Dylech hefyd fod wedi rhoi gwybod i ni:

- os oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i ardystio yn unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, neu wedi peidio â chael ei ardystio mwyach fel unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, yn ystod y 28 wythnos cyn dyddiad eich hawliad neu'ch adnewyddiad
- os nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i ardystio mwyach yn unigolyn â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
- os dyfarnwyd budd-dal anabledd i'r plentyn neu'r person ifanc yn dilyn adolygiad neu apêl – rhowch wybod i ni cyn pen un mis ar ôl y penderfyniad oherwydd mae'n bosibl y bydd genych hawl i elfen anabledd y Credyd Treth Plant – mae'n bosibl bod gennych hawl hyd yn oed os yw eich dyfarniad credydau treth wedi dod i ben

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

## Costau gofal plant

Bydd eich Adolygiad Blynyddol yn dangos a gawsoch help gyda chostau gofal plant, ac unrhyw newidiadau i ofal plant y gwnaethoch roi gwybod i ni amdanynt yn ystod cyfnod eich dyfarniad. Mae angen i chi wneud yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.

Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein – ewch i www.gov.uk/childcare-costs-for-tax-credits

**Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybod i ni os:**

- aeth eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog i fyny neu i lawr £10 yr wythnos neu fwy
- gwnaeth eich darparwr gofal plant beidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- gwnaethoch ddechrau defnyddio darparwr gofal plant nad oedd wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo at ddibenion credydau treth
- gwnaethoch ddechrau defnyddio aelod o'r teulu i ofalu am eich plentyn, yng nghartref y plentyn
- gwnaethoch ddechrau talu am ofal plant cofrestredig a chymeradwy, a'ch bod bellach yn gallu hawlio help gyda chostau gofal plant drwy'r Credyd Treth Gwaith
- daeth eich costau gofal plant i ben
- gwnaeth eich plentyn roi'r gorau i fynd i ofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd
- cyrhaeddodd eich plentyn ei ben-blwydd yn 15 oed – gallech hawlio help gyda chostau gofal plant hyd at 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 15 oed (neu ei ben-blwydd yn 16 oed os yw'n anabl)

I gael rhagor o wybodaeth am gostau gofal plant, neu er mwyn gweld a yw'ch darparwr gofal plant yn gymwys, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

# Eich incwm

## Incwm o gyflogaeth ac incwm o bensiynau galwedigaethol

Mae'n bosibl y bydd eich Adolygiad Blynyddol yn dangos manylion incwm y mae'ch cyflogwyr neu'ch darparwyr pensiwn galwedigaethol wedi'u rhoi i Gyllid a Thollau EF (CThEF). Y ffigur fydd cyfanswm yr incwm a roddwyd ar gyfer cyfnod yr adolygiad blynyddol. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu gwneud didyniadau o'r ffigur hwn.
Os oedd gennych fwy nag un cyflogwr neu ddarparwr pensiwn galwedigaethol, caiff y cyfanswm gan bob un ohonynt ei ddangos. Os oeddech yn hawlio fel cwpl, ac roedd y ddau ohonoch yn gweithio, caiff eich incymau unigol eu dangos ar wahân. Dyma'r ffigurau incwm y byddwn yn eu defnyddio i gwblhau'ch hawliad, felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os ydynt yn anghywir.

**Mae incwm rydym yn ei ddefnyddio i gyfrifo'ch credydau treth yn cynnwys:**

- enillion o gyflogaeth – cyfanswm yr incwm a enillwyd gennych chi a'ch partner (a ddangosir fel 'cyfanswm y tâl ar gyfer y flwyddyn' ar eich P60, P45 neu ar eich slipiau cyflog)
- pensiynau galwedigaethol – cyfanswm unrhyw bensiynau a gawsoch chi a'ch partner o gyflogaeth flaenorol neu barhaus
- rhai buddiannau y mae'n bosibl eich bod chi neu'ch partner wedi'u cael – cewch hyd i'r manylion ar eich P11D

## Incwm arall

**Mae incwm y bydd angen i chi roi gwybod i ni amdano'n cynnwys:**

- rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy – cyfanswm eich budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy chi a'ch partner
  – peidiwch â chynnwys Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
  – peidiwch â chynnwys yr Atodiad i Lwfans Gofalwr os ydych yn byw yn yr Alban
- unrhyw incwm arall – cyfanswm eich incwm arall chi a'ch partner, er enghraifft yr holl incwm ar ddifidendau, incwm o gynilion, peth incwm rhentu, a Phensiwn y Wladwriaeth neu bensiwn galwedigaethol

## Didyniadau

Mae'n bosibl y bydd didyniadau y gallwch eu gwneud wrth gyfrifo'ch incwm cyflogaeth ar gyfer credydau treth.
Er enghraifft:

- y £100 cyntaf o unrhyw Dâl Mamolaeth, Tâl Tadolaeth, Tâl Rhieni ar y Cyd, Tâl Rhieni mewn Profedigaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol wythnosol
- tanysgrifiadau, ffioedd a threuliau gwaith caniataol o'ch incwm o gyflogaeth

O gyfanswm incwm eich aelwyd, dylech dynnu unrhyw:

- cyfraniadau pensiwn rydych yn eu talu y tu allan i'ch cyflog neu o'ch incwm net, gan gynnwys unrhyw ryddhad treth sy'n ddyledus
- rhoddion i elusennau drwy Rodd Cymorth

I gael rhagor o wybodaeth am incwm, ewch i www.gov.uk/tax-credits-working-out-income

I gael taflenni gwaith i'ch helpu i gyfrifo'ch incwm, gan gynnwys unrhyw fuddiannau a didyniadau, ewch i GOV.UK a chwilio am TC603RD Nodiadau.

## Os oes angen help arnoch

Ewch i www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits
Ffoniwch 0300 200 1900 (Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF) i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.
Relay UK drwy gyfrwng y Saesneg (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn) 18001 yna 0345 300 390.